

## Adroddiad Archwilio Cyfrifon – Cyngor Sir Ddinbych

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2687A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn [infoofficer@archwilio.cymru](mailto:infoofficer@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich Cyfrifon. Ceir rhai materion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.

## Adroddiad Archwilio Cyfrifon

Cyflwyniad	4
Effaith COVID-19 ar archwiliad eleni	4
Barn archwilio arfaethedig	5
Materion arwyddocaol a ddeilliodd o'r archwiliad	6
Atodiadau	
Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol	7
Atodiad 2 – Adroddiad archwilydd annibynnol arfaethedig Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Ddinbych	10
Atodiad 3 – Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed	15

# Adroddiad Archwilio Cyfrifon

## Cyflwyniad

- 1 Rydym yn crynhoi'r prif ganfyddiadau o'n harchwiliad o'ch cyfrifon grŵp ar gyfer 2020-21 yn yr adroddiad hwn. Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo a'i dîm.
- 2 Dyma'r flwyddyn gyntaf i Gyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) baratoi cyfrifon grŵp. Roedd y broses ar gyfer paratoi cyfrifon y grŵp yn cynnwys cyfuno cyfrifon y Cyngor â'i is-gwmni newydd, Denbighshire Leisure Ltd (a ddaeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2020).
- 3 Ni all archwilywyr byth roi sicrwydd llwyr bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn hytrach, rydym yn gweithio yn ôl lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel berthnasedd hon i geisio nodi a chywiro camddatganiadau a allai fel arall achosi defnyddiwr y cyfrifon i gael ei gamarwain.
- 4 Pennwyd y lefel hon gennym yn £3.8 miliwn ar gyfer archwiliad eleni.
- 5 Ceir rhai rhannau o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i'r darlennydd ac rydym wedi pennu lefel berthnasedd is ar gyfer y rhain, fel a ganlyn:
  - Taliadau cydnabyddiaeth swyddogion uwch £1,000
  - Trafodiadau partiön cysylltiedig £10,000
- 6 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; yn cadw'n annibynnol arnoch chi; ac nid yw ein gwrthrychedd wedi ei beryglu mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthynas rhyngom ni a chi yr ydym yn credu a allai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth. Rydym wedi eich hysbysu yn flaenorol am fygythiad posibl i annibyniaeth a gwrthrychedd archwilydd yn deillio o'r ffaith bod aelodau teuluoedd dau aelod o'r tîm archwilio yn cael eu cyflogi gan y Cyngor. Gallwn gadarnhau bod y mesurau diogelu a gynlluniwyd a nodwyd yn ein Cynllun Archwilio wedi gweithredu fel y bwriadwyd.

## Effaith COVID-19 ar archwiliad eleni

- 7 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar bob agwedd ar ein cymdeithas ac mae'r effaith honno yn parhau. Mae'n ofynnol o dan y gyfraith i chi baratoi cyfrifon ac mae'n glod sylweddol i ymrwymiad eich tîm cyfrifon eich bod wedi llwyddo i wneud hynny yn wyneb yr heriau sydd wedi deillio o'r pandemig hwn. Rydym yn hynod ddiolchgar am broffesiynoldeb y tîm wrth ein cynorthwyo i gwblhau ein harchwiliad o dan amgylchiadau mor anodd.
- 8 Nid yw'n syndod bod y pandemig wedi effeithio ar ein harchwiliad ac rydym yn crynhoi'r prif effeithiau yn **Arddangosyn 1**. Ac eithrio pan fyddwn yn gwneud argymhellion yn benodol, darperir y manylion yn **Arddangosyn 1** at ddibenion gwybodaeth yn unig i'ch helpu i ddeall effaith pandemig COVID-19 ar broses archwilio eleni.

## Arddangosyn 1 – effaith COVID-19 ar archwiliad eleni

<b>Amserlen</b>	Darparwyd y cyfrifon grŵp drafft i i ni ar 2 Awst 2021 sy'n cyd-fynd â'r amserlen y cytunwyd arni. Disgwylwn i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi yn dilyn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 24 Tachwedd 2021, sydd eto'n unol â'r amserlen.
<b>Llofnodion electronig</b>	O gofio gofynion cadw pellter cymdeithasol presennol, bydd yn anodd lofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar ffurf copi caled eto eleni. Byddwn yn derbyn llofnodion electronig gennych.
<b>Cynnal y dull archwilio a chael gafael ar dystiolaeth archwilio</b>	Oherwydd camau cadw pellter cymdeithasol, mae Archwilio Cymru a'r rhan fwyaf o staff yr Awdurdod yn gweithio o bell gartref ar hyn o bryd. O ganlyniad, mabwysiadwyd ffyrdd o weithio o bell gennym, gan adeiladu ar ein profiad y llynedd, trwy: <ul style="list-style-type: none"><li>• ddiweddarau'r pethau i'w cyflawni yn ein harchwiliad i egluro gofynion papur gwaith;</li><li>• cynnal cyfarfodydd Microsoft Teams wythnosol â swyddogion trwy gydol yr archwiliad i drafod cynnydd a materion a oedd yn dod i'r amlwg;</li><li>• defnyddio porth trosglwyddo ffeiliau o bell i rannu gwybodaeth yn ddiogel; a</li><li>• threfnu mynediad o bell at systemau ariannol.</li></ul>

- 9 Byddwn yn adolygu'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu ar gyfer ein proses archwilio o bandemig COVID-19 a pha un a oes arferion arloesol y gallem eu mabwysiadu yn y dyfodol i wella'r broses honno.

## Barn archwilio arfaethedig

- 10 Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni ar ôl i chi ddarparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.
- 11 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' pan fydd gennym bryderon perthnasol ynglŷn â rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.
- 12 Mae'r Llythyr Sylwadau yn cynnwys mathau penodol o gadarnhad y mae'n ofynnol i ni eu cael gennych yn unol â safonau archwilio.
- 13 Cyflwynir ein hadroddiad archwilio arfaethedig yn **Atodiad 2**.

## Materion arwyddocaol a ddeilliodd o'r archwiliad

### Camddatganiadau heb eu cywiro

- 14 Pan fyddwn yn nodi camddatganiadau, rydym yn eu codi gyda rheolwyr sydd â'r opsiwn i ddiwygio ar eu cyfer. Pan fydd y rheolwyr yn penderfynu peidio â diwygio, mae angen i'w penderfyniad gael ei gadarnhau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu er mwyn sicrhau eu bod yn cytuno. Mae Arddangosyn 2 yn nodi'r camddatganiadau yr ydym wedi'u nodi yn y datganiadau ariannol, sydd wedi'u trafod gyda'r rheolwyr, ond y maent wedi dewis peidio â'u diwygio.

#### Arddangosyn 2 – camddatganiadau heb eu cywiro

Camddatganiadau heb eu cywiro yn Nodyn 13 'Eiddo, Peiriannau ac Offer'	
<b>Mae 'Tir ac Adeiladau Eraill' yn cael ei dan ddatgan gan £1.063 miliwn oherwydd camddosbarthu offer a waredwyd i is-gwmni sydd newydd ei ffurfio.</b>	<p>Wrth sefydlu'r is-gwmni newydd, Denbighshire Leisure Ltd, trosglwyddwyd offer o'r Cyngor i'r cwmni gwerth cyfanswm o £2.716 miliwn, a chafodd £1.063 miliwn ohono ei gamddosbarthu fel trosglwyddiad o 'Tir ac Adeiladau Eraill'.</p> <p>Y canlyniad cyffredinol yw bod 'Tir ac Adeiladau Eraill' y Cyngor yn cael ei dan ddatgan gan £1.063 miliwn ac mae angen addasiad cyfatebol yn y 'Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig' a'r 'Cyfrif Addasiadau Cyfalaf' yn Nodyn 22 'Cronfeydd Wrth Gefn Na Ellir eu Defnyddio'.</p> <p>Mae swyddogion wedi cadarnhau y bydd y mater yn cael ei ddatrys ar gyfer 2021-22.</p>
<b>Mae 'Tir ac Adeiladau Eraill' yn cael ei orbwysleisio gan £528,000 oherwydd bod Cartref Preswyl wedi'i gynnwys mewn camgymeriad.</b>	<p>Nodwyd bod 'Tir ac Adeiladau Eraill' o fewn y Fantolen yn cael ei orbwysleisio gan £528,000. Mae hyn oherwydd bod Cartref Preswyl wedi'i gynnwys yn anghywir a gaewyd ym mis Mawrth 2019 ac a ddymchwelwyd yn ddiweddarach. O ystyried y defnydd cyfyngedig a'r datblygiad o'r safle yn y dyfodol, dylid bod wedi cynnwys gwerth enwol yn y Fantolen.</p> <p>Dylai'r ased hefyd fod wedi'i ailddosbarthu o 'Tir ac Adeiladau Eraill' i 'Asedau Dros Ben'.</p> <p>Mae'r gwall hefyd yn effeithio ar gofnodion cyfatebol yn y 'Gronfa Adbriso wrth Gefn', y 'Cyfrif Addasiadau Cyfalaf' a'r 'Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr' drwy'r 'Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn'.</p> <p>Mae swyddogion wedi cadarnhau y bydd y mater yn cael ei ddatrys ar gyfer 2021-22.</p>

<p><b>Mae ailbriso canolfannau hamdden 'Tir ac Adeiladau Eraill' yn cael ei orbwysleisio gan £436,000.</b></p>	<p>Nodwyd nad oedd ailbriso gwaith cyfalaf mewn dwy ganolfan hamdden yn ystod y flwyddyn yn cael ei adlewyrchu'n gywir wrth ailbriso 'Tir ac Adeiladau Eraill'. Arweiniodd hyn at orbwysleisio'r asedau o £436,000. Mae swyddogion wedi cadarnhau y bydd y mater yn cael ei ddatrys ar gyfer 2021-22.</p>
<p><b>Mae gwerth dau faes parcio'r Cyngor yn 'Tir ac Adeiladau Eraill' yn cael ei dan ddatgan o leiaf £33,000.</b></p>	<p>Nododd ein harchwiliad fod prisio dau faes parcio yn cael ei danddatgan gan fod sail brisio anghywir wedi'i defnyddio. Nid yw'r Cyngor wedi gallu maint effaith y camddatganiad yn llawn, ond rydym yn fodlon na fydd yn berthnasol i'r datganiadau ariannol. Mae swyddogion wedi cadarnhau y bydd y mater yn cael ei ddatrys ar gyfer 2021-22.</p>
<p><b>Mae gwerth ychwanegiadau i 'Anheddau Cyngor' yn cael ei orbwysleisio gan £326,000.</b></p>	<p>Nodwyd bod offer o £326,000 wedi'i ychwanegu'n anghywir at werth anheddau'r cyngor yn Nodyn 13. Nid oedd yr offer wedi'i dderbyn erbyn diwedd y flwyddyn ac felly ni ddylai fod wedi'i gynnwys fel ychwanegiad i anheddau'r cyngor. Dylai'r swm hwn fod wedi'i gynnwys fel rhagdaliad yn Nodyn 15 'Dyledwyr', sydd felly'n cael ei danddatgan gan swm cyfatebol. Mae swyddogion wedi cadarnhau y bydd y mater yn cael ei ddatrys ar gyfer 2021-22.</p>
<p><b>Mae ailbriso 'Asedau Dros Ben' yn cael ei dan ddatgan gan £329,000.</b></p>	<p>Hepgorwyd ailbriso anheddau cyngor a ddsbarthwyd fel 'Asedau Dros Ben' o'r Gofrestr Asedau Sefydlog a'r gwerth 'Asedau Dros Ben' yn Nodyn 13. Arweiniodd hyn at dan ddatgan gwerth 'Asedau Dros Ben' o £329,000. Mae swyddogion wedi cadarnhau y bydd y mater yn cael ei ddatrys ar gyfer 2021-22.</p>
<p><b>Camddatganiadau heb eu cywiro yn Nodyn 34 'Prydlesau'</b></p>	
<p><b>Nid yw'r Cyngor wedi gallu gwirio'n llawn y dosbarthiad o daliadau prydles yn y dyfodol sy'n dderbyniadwy.</b></p>	<p>Mae'n ofynnol cynnwys nodyn datgelu yn y cyfrifon sy'n nodi'r isafswm taliadau prydles sy'n dderbyniadwy yn y dyfodol o dan brydlesi na ellir eu canslo. Mae'r nodyn wedi'i gynnwys yn y cyfrifon yn Nodyn 34, ond nid yw'r Cyngor wedi gallu dangos bod dosbarthu taliadau prydles yn gywir. Mae swyddogion wedi cadarnhau y bydd y mater yn cael ei ddatrys ar gyfer 2021-22.</p>

- 15 Gofynnwn i'r Pwyllgor Archwilio ystyried y camddatganiadau hyn a phenderfynu a ydynt yn dymuno iddynt gael eu diwygio.

### **Camddatganiadau wedi'u cywiro**

- 16 Mae'r camddatganiad yn y cyfrifon sydd bellach wedi'i gywiro gan y rheolwyr wedi'i nodi gydag esboniad yn Atodiad 3.

### **Materion arwyddocaol eraill a ddeilliodd o'r archwiliad**

- 17 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion yn ymwneud â'r cyfrifon ac yn eich hysbysu am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Mae gennym un mater i'w adrodd i chi.

#### **Papurau gwaith i gefnogi datgeliadau asedau sefydlog**

- 18 Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor yn cynnal taenlenni cymhleth a phapurau gwaith i gefnogi'r asedau sefydlog a ddatgelwyd yn y datganiadau ariannol.
- 19 Mae'r taenlenni lluosog a ddefnyddir gan y Cyngor i gefnogi'r datgeliadau asedau sefydlog yn eich datganiadau ariannol yn cael eu cynnal ac yn cefnogi'r gwaith o baratoi'r cyfrifon. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod â phryderon ynghylch graddau'r mewnbwn â llaw sydd ei angen i ddiweddarau cofnodion ategol a gallu'r system i gefnogi proses effeithlon ac effeithiol o gau cyfrifon, yn enwedig pa mor hawdd yw cofnodi newidiadau cyfrifyddu sy'n codi yn ystod y flwyddyn.



# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Papur a phennawd y corff a archwiliwyd

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

24 Tachwedd 2021

## Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2020-21

Darperir y llythyr hwn yng nghyswllt eich archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Sir Ddinbych a'i grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 at ddiben mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch a'u paratoad priodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud yr ymholiadau digonol yn ein tyb ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau ar gyfer:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21; yn benodol mae'r datganiadau ariannol yn cynnig golwg wirioneddol a theg yn unol â chynnwys y Cod; a
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a darganfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol i chi:

- mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr oeddem yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol fel llyfrau cyfrifon a dogfennau ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych wedi gwneud cais i ni amdani at ddiben yr archwiliad; a

- mynediad anghyfyngedig at staff y gwnaethoch benderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u cam-ddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth am dwyll neu amheuaeth o dwyll yr ydym yn ymwybodol ohoni ac sy'n effeithio ar Gyngor Sir Ddinbych a'i grŵp ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â swyddi rheolaeth fewnol arwyddocaol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu amheuaeth o dwyll, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyfathrebwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth am yr holl achosion hysbys o ddiffyg cydymffurfio neu amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a
- manylion adnabod yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gysylltiadau a thrafodiadau partïon perthnasol yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau ynghylch y datganiadau ariannol

Cofnodwyd yr holl drafodiadau, asedau a rhwymedigaethau yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae rhagdybiaethau sylweddol a ddefnyddiwyd wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rhai a mesurwyd ar sail gwerth teg, yn rhesymol.

Ystyriwyd a datgelwyd yn briodol gysylltiadau a thrafodiadau partïon cysylltiedig.

Mae'r holl ddigwyddiadau a gododd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen eu diwygio neu eu datgelu wedi eu haddasu neu eu datgelu.

Datgelwyd yr holl ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl hysbys y gellid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd ac fe'u hystyriwyd a'u datgelwyd yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Nid yw effeithiau camddatganiadau heb eu cywiro a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn berthnasol, yn unigol nac yn gyfunol, i'r datganiadau ariannol o'u hystyried yn eu cyfanrwydd.

Mae camddatganiadau heb eu cywiro yn y datganiadau ariannol. Penderfynwyd peidio ag addasu ar gyfer y gwallau gan nad yw camddatganiadau'n berthnasol i'r datganiadau ariannol.

## Sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 24 Tachwedd 2021.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem ni eu cymryd er mwyn gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau ei bod wedi ei chyfathrebu i chi. Rydym yn cadarnhau, cyn belled ag yr ydym yn ymwybodol, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Steve Gadd

Pennaeth Cyllid ac Eiddo  
24 Tachwedd 2021

Llofnodwyd gan:

Y Cynghorydd Barry Mellor

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac  
Archwilio Corfforaethol  
24 Tachwedd 2021

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilydd annibynnol arfaethedig Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Ddinbych

### Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Cyngor Sir Ddinbych; a
- Grŵp Cyngor Sir Ddinbych.

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y polisïau cyfrifyddu, Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a'r Datganiad Symudiad yn y Cyfrif Refeniw Tai a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Grŵp Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn y Grŵp, Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant y Grŵp, Mantolen y Grŵp a Datganiad Llif Arian Parod y Grŵp a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith gymwys a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn cynnig darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ddinbych a Grŵp Cyngor Sir Ddinbych ar 31 Mawrth 2021 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi yn briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith gymwys a Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y cyngor a'i grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol

eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi cael gafael arni yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi ei wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu'n gyfunol, arwain at amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r Cyngor i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o flwyddyn neu fwy o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol o ran busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilio arnynt. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw gasgliad sicrwydd arni ac eithrio i'r graddau a nodir yn eglur fel arall yn fy adroddiad. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, thrwy hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth y cafwyd gafael arnynt yn ystod yr archwiliad, neu y mae'n ymddangos eu bod wedi eu cam-ddatgan yn berthnasol mewn ffordd arall. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gam-ddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gam-ddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf i wedi ei wneud, byddaf yn dod i'r casgliad bod cam-ddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gen i unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a pharatowyd yr Adroddiad Naratif yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21; ac

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a pharatowyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â chanllawiau.

## **Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y Cyngor a'r grŵp a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gen i unrhyw beth i'w adrodd o ran y materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu nad yw datganiadau sy'n ddigonol o'm harchwiliad wedi eu derbyn gan ganghennau nas ymwelwyd â nhw gan fy nhîm;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## **Cyfrifoldebau**

### **Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol**

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon a nodir ar dudalen 13, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, gan gynnwys datganiad ariannol grŵp Cyngor Sir Ddinbych, sy'n cynnig darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu sy'n angenrheidiol i allu paratoi datganiadau cyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, pa un a yw hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyngor a'r grŵp i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai yr ystyrir bod hynny yn amhriodol.

### **Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol am ba un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, pa un a yw hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n sicrwydd pendant y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid

disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu'n gyfunol, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddarganfod camddatganiadau perthnasol o ran afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol y Cyngor a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys caffael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ddinbych yn ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt unrhyw wybodaeth am dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a'r
  - rheolaethau mewnol sydd wedi'u sefydlu i liniaru risgiau yn gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a lle gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y potensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: postio cyfnodolion anarferol, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarnau a gwerthuso'r rhesymeg ar gyfer unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol.
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyngor Sir Ddinbych yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a oedd yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a oedd yn cael effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Sir Ddinbych.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau a'r profion datganiad ariannol ar ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiad â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Corfforaethol a chynghorwyr cyfreithiol am ymglyfrefnau a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll wrth i reolwyr wrthwneud rheolaethau, gan brofi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcanion cyfrifyddu yn dangos tuedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodiadau sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol; a
- chyfathrebais hefyd ddeddfau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i'r holl dîm archwilio gan gadw yn effro i unrhyw awgrymiadau o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Sir Ddinbych, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd effeithio ar i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## **Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ddinbych yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Tachwedd 2021

24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ



# Atodiad 3

## Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, nodwyd y camddatganiad canlynol gennym sydd wedi eu cywiro gan reolwyr, ond yr ydym o'r farn y dylid tynnu eich sylw atynt oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau am y broses adrodd ariannol.

### Arddangosyn 3: crynodeb o gywiriadau a wnaed

Natur y cywiriad	Rheswm am y cywiriad	Effaith
Diwygiwyd <b>Nodyn 32 'Partion Cysylltiedig'</b> i gynnwys trafodiad parti cysylltiedig ag Aelod Etholedig ychwanegol o £8,000.	Cafodd trafodiad parti cysylltiedig ar gyfer taliad fel rhan o ddyfarniad grant i Gyngor Dinas Llanelwy ei wahardd mewn camgymeriad.	Ni chafodd y cywiriad unrhyw effaith arall ar y datganiadau ariannol. <b>Cywiriad cyflwyniadol yn unig.</b>



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [info@archwilio.cymru](mailto:info@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.